

**Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
PAC(4) 25-12 – Papur 1**

Dyddiad: Dydd Llun 12 Tachwedd 2012

**Lleoliad: Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Teitl: Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru**

Diben

1. Mae'r papur hwn yn rhoi tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad byr y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i Wasanaethau Mamolaeth yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar gyfraddau toriadau cesaraidd

2. Mae'r papur tystiolaeth yn ystyried y canlynol:

- Arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru o ran gwella gwasanaethau mamolaeth;
- Cyfraddau toriadau cesaraidd

Ymhlith y meysydd dilynol eraill i'w harchwilio mae:

- Lefelau staffio mewn gwasanaethau mamolaeth;
- Effaith gwasanaethau mamolaeth ar gyfraddau bwydo ar y fron

**ARWEINYDDIAETH LLYWODRAETH CYMRU YM MAES GWASANAETHAU
MAMOLAETH**

Arweinydd polisi

3. Gwnaethpwyd Prif Swyddog Nyrsio Cymru yn arweinydd polisi ar gyfer gwasanaethau mamolaeth ym mis Mehefin 2011.

Y Weledigaeth Strategol ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru

4. Lanswyd y weledigaeth strategol ar gyfer gwasanaethau mamolaeth ym mis Medi 2011 ac mae wrthi'n cael ei defnyddio i lywio'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ad-drefnu gwasanaeth mamolaeth y GIG yng Nghymru (gweler adran 6 isod am amserlenni). Mae'n nodi rhaglen o gamau gweithredu cenedlaethol a lleol i gyflawni ein gweledigaeth ynghyd â'r canlyniadau dymunol i ferched a'u babanod yn ystod beichiogrwydd a genedigaeth.

5. Mae'r ddogfen Gweledigaeth y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r GIG weithredu arni yn cynnwys yr egwyddorion allweddol canlynol ar gyfer gwasanaethau mamolaeth:

- i. Rhoi anghenion y fam a'r teulu wrth wraidd y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod beichiogrwydd a genedigaeth yn brofiad cadarnhaol ac y caiff merched eu trin ag urddas a pharch.

- ii. Hyrwyddo ffyrdd o fyw iach ar gyfer merched beichiog, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd hwy a'u teulu;
- iii. Cynnig amrywiaeth o ddewisiadau gofal o ansawdd uchel mor agos i'r cartref ag sy'n ddiogel ac yn gynaliadwy i wneud hynny, gan fydwragedd a gwasanaethau a arweinir gan feddygon ymgynghorol;
- iv. Cyflogi gweithlu hyfforddedig, medrus sy'n gallu darparu gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd uchel; ac a gaiff ei adolygu a'i wella'n barhaus.

6. Cynlluniau Ad-drefnu Gwasanaethau

Mae tair rhaglen ar gamau gwahanol ar hyn o bryd:

Lansiodd **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** ei ymgynghoriad cyhoeddus "*Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid*" ar 20 Awst, a oedd yn cynnwys ei gynigion ffurfiol ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd yng Ngogledd Cymru. Daeth y broses ymgynghori ffurfiol i ben ar 28 Hydref ac mae'r Gweinidog yn disgwyl y caiff sylwadau pob rhanddeiliad eu hystyried fel rhan o'r gwaith gwerthuso a dadansoddi dilynol. Disgwylir i'r Bwrdd Iechyd gyhoeddi ei gynlluniau terfynol tuag at ddiwedd y flwyddyn.

Lansiodd **Bwrdd Iechyd Hywel Dda** ei ymgynghoriad cyhoeddus "*Eich Iechyd Eich Dyfodol - Ymgynghori â'n Cymunedau*" ar 6 Awst, sy'n cynnwys ei gynigion ffurfiol ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Daeth y broses ymgynghori ffurfiol i ben ar 29 Hydref ac mae'r Gweinidog yn disgwyl y caiff sylwadau pob rhanddeiliad eu hystyried fel rhan o'r gwaith gwerthuso a dadansoddi dilynol. Disgwylir i'r Bwrdd Iechyd gyhoeddi ei gynlluniau terfynol tuag at ddiwedd y flwyddyn.

Lansiodd **Bwrdd Iechyd De Cymru** ei raglen ymgysylltu ar 26 Medi ac ni fydd yn dechrau ar ei broses ymgynghori ffurfiol tan y Flwyddyn Newydd.

Cyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth

7. Mae Grŵp Gweithredu Cymru gyfan wedi bod yn arwain a goruchwyllo'r broses hon. Caiff ei gadeirio gan Jean White, y Prif Swyddog Nyrsio a Claire Foster, cynrychiolydd defnyddwyr.

8. Sefydlwyd yr is-grwpiau canlynol i fynd ar drywydd yr egwyddorion allweddol a ddisgrifir yn y ddogfen Gweledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth:

- 1. Pennu canlyniadau, dangosyddion a mesurau perfformiad
- 2. Gweithlu
- 3. Gwybodeg
- 4. Y gallu i gael gafael ar fydwraig yn uniongyrchol
- 5. Adrodd ar ansawdd a diogelwch

9. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo'n dda a chaiff ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2013. Mae Tabl 1 isod yn disgrifio'r tasgau ar gyfer pob un o'r pum is-grŵp. Ceir rhagor o fanylion am y canlyniadau, y dangosyddion a'r mesurau perfformiad a gyhoeddwyd i sefydliadau'r GIG yn yr adran sy'n dilyn y tabl.

Tabl 1: Prif dasgau fesul is-grŵp

Is-Grŵp	Tasgau
<p>1. Pennu canlyniadau, dangosyddion a mesurau perfformiad</p>	<p>Defnyddio methodoleg a therminoleg Atebolrwydd sy'n Seiliedig ar Ganlyniadau, nodi cyfres o ganlyniadau a dangosyddion ar gyfer mesur pa mor dda y mae Cymru yn cyflawni'r canlyniadau dymunol i ferched, eu babanod a'u teuluoedd yn genedlaethol.</p> <p>Mae'r grŵp hwn wedi gorffen ei waith - gweler adran 10 ac 11 ar fesur llwyddiant isod i weld y camau penodol a gymerwyd.</p>
<p>2. Gweithlu</p>	<p>Sgiliau'r Gweithlu, Addysg a Datblygiad - argymhell safonau gofynnol o ran sgiliau, addysg a datblygiad i bob aelod o staff, wedi'u hategu gan ddatblygiad rhaglenni ar gyfer Cymru gyfan lle y bo'n briodol.</p> <p>Lefelau Staffio - asesu cydymffurfiaeth y sefydliad â phob lefel staffio (Birth Rate Plus/RCOG ac ati) er mwyn nodi meysydd lle mae prinder. Nodi cyfleoedd posibl yn y gweithlu a chyfyngiadau ar fodelau gwasanaeth yn y dyfodol.</p> <p>Cymysgedd Sgiliau - adolygu cyfleoedd i ail-gydbwysu'r cymysgedd sgiliau, gan ystyried arfer gorau. Datblygu model staffio/cymysgedd sgiliau ar gyfer pob grŵp staff er mwyn helpu i newid y gweithlu.</p> <p>Cynllunio'r Gweithlu - argymhell beth i'w gynnwys yn y broses o gynllunio'r gweithlu sy'n adlewyrchu canlyniadau'r gwaith a wnaed ar y tri maes gwaith uchod.</p>
<p>3. Gwybodeg</p>	<p>Sefydlwyd yr is-grŵp Gwybodeg i roi gofynion gwybodeg y Strategaeth ar waith.</p>
<p>4. Y gallu i gael gafael ar fydwraig yn uniongyrchol</p>	<p>Ystyried y diffiniad a'r elfennau sydd eu hangen i sicrhau y gall merched beichiog gael gafael ar fydwraig yn uniongyrchol a datblygu pecyn cymorth a fframwaith gweithredol i'w gweithredu gan BILlau.</p> <p>Mae'r is-grŵp bellach wedi cwblhau ail ddrafft y ddogfen pecyn cymorth a gwblhawyd ym mis Awst.</p>
<p>5. Adrodd ar ansawdd a diogelwch</p>	<p>Adolygu a gwerthuso arolygon, archwiliadau a dulliau adrodd eraill sy'n bodoli eisoes mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch mewn gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.</p> <p>Pennu priodoldeb a chadernid dulliau adrodd sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau ac achosion o orgyffwrdd.</p> <p>Sicrhau y caiff y systemau adrodd eu hintegreiddio yn y gwasanaeth ac y caiff dolenni archwilio eu cau fel mater o</p>

Mesur llwyddiant

10. Gan ganolbwyntio ar wella iechyd, cyhoeddwyd pum dangosydd canlyniad i'r GIG ym mis Gorffennaf 2012, a defnyddir y rhain i fesur cynnydd wrth drawsnewid gwasanaethau. Mae'n ofynnol i bob Bwrdd Iechyd ddarparu data sylfaenol ar y dangosyddion erbyn mis Gorffennaf 2013 fel y gellir pennu mesurau perfformiad ar gyfer y dyfodol. Mae'r dangosyddion canlyniadau hyn fel a ganlyn:

- I. Canran y merched sy'n gwneud y canlynol:
 - a. Ysmygu yn ystod beichiogrwydd
 - b. Yfed 5 uned o alcohol neu fwy yr wythnos, yn ystod beichiogrwydd
 - c. Sydd â BM1 o 30 neu fwy adeg yr asesiad cychwynnol
 - ch. Camddefnyddio sylweddau yn ystod beichiogrwydd
- II. Cyfran y babanod a oedd yn pwyso llai na 2.5kg adeg eu geni (genedigaethau byw)
- III. Cyfran y babanod a oedd yn cael llaeth y fron yn unig 10 diwrnod ar ôl eu geni
- IV. Cyfran y merched a'u partneriaid a oedd yn teimlo'n hyderus i ofalu am eu babi
- V. Cyfran y genedigaethau arferol

11. Defnyddir y dangosyddion canlyniadau uchod i fesur ac olrhain pa mor dda mae'r gwasanaeth yn perfformio dros amser. Mae angen i ni leihau anghydraddoldebau ym maes iechyd, ac felly bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried i ba raddau mae'r gwasanaethau yn lleihau'r bwlch rhwng y rhannau mwyaf a lleiaf difreintiedig o Gymru a rhwng grwpiau oedran. Mae angen i ni hefyd lunio cymariaethau rhyngwladol lle y bo hynny'n bosibl.

ENGHRAIFFT O ARWEINYDDIAETH LLYWODRAETH CYMRU: Datblygu Hyfforddiant Cymru Gyfan ar gyfer Dehongli Dulliau Monitro Curiad Calon Ffetws yn Electronig (Cardiotocograff)

12. Mae cardiotocograffeg (CTG) yn ddull technegol o gofnodi curiad calon ffetws a chyfangiadau'r groth yn ystod beichiogrwydd a'r cyfnod esgor. Gall yr her o ddehongli cofnodiadau CTG yn ystod y cyfnod esgor arwain at fethiant i weithredu'n briodol pan fydd y ffetws mewn trallod. Mae canllawiau presennol yn nodi bod angen i staff fod yn gymwys i ddefnyddio a dehongli CTG ac er bod hyfforddiant rheolaidd ar gael i staff meddygol a bydwreigiaeth, gellid gwella hyn drwy gynnwys asesiad o gymhwysedd.

13. Mewn ymateb i'r pryderon hyn, mae'r Prif Swyddog Nyrsio yn cadeirio Grŵp Gorchwyl a Gorffen Dehongli CTG ar gyfer Cymru gyfan. Bydd y grŵp yn datblygu pecyn e-ddysgu sy'n seiliedig ar dystiolaeth i fydwragedd ac obstetryddion ledled Cymru, a fydd yn cynnwys asesiad o gymhwysedd, yn seiliedig ar ganllawiau Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwreagedd. Mae'r pecyn hyfforddiant wrthi'n cael ei ddatblygu a bydd ar gael yn 2013.

CYFRADDAU TORIADAU CESARAIDD

Cefndir

14. Mae cyfraddau toriadau cesaraidd wedi bod yn codi'n raddol dros y 15 mlynedd diwethaf ac yn 2011, cafodd tua chwarter y babanod eu geni drwy Doriad Cesaraidd. Ceir darlun tebyg ledled y DU.

	Lloegr	Yr Alban	Gogledd Iwerddon	Cymru
Cyfraddau 2010	24.8%	26.6%	30%	26.6%

15. Nid oes un ffactor penodol sy'n cyfrannu at y cynnydd mewn cyfraddau ac mae'n her wirioneddol eu lleihau yn enwedig gan fod toriadau cesaraidd am yr eildro yn cyfrif am tua chwarter y gyfradd gyffredinol.

16. Mae nifer y merched â chymhlethdodau meddygol yn cynyddu yn ogystal â nifer y merched beichiog sy'n ysmegu neu'n ordew. Mae'r ffactorau hyn i gyd yn cyfrannu at y cynnydd mewn cyfraddau Toriadau Cesaraidd.

17. Mae Byrddau Iechyd yn nodi bod Canllawiau diweddar NICE ar Doriad Cesaraidd (2011) wedi arwain at fwy o ferched yn gofyn am Doriad Cesaraidd. Mae'r Canllaw'n argymhell, pan fydd merch yn gofyn am Doriad Cesaraidd am ei bod yn pryderu am roi genedigaeth, y dylid cynnig ei hatgyfeirio at weithiwr gofal iechyd proffesiynol sydd â'r arbenigedd i roi cymorth iechyd meddwl amenedigol i'w helpu i fynd i'r afael â'i phryder mewn modd cefnogol.

18. I ferched sy'n gofyn am Doriad Cesaraidd, os nad yw geni drwy'r fagina yn opsiwn derbynol o hyd, ar ôl trafod a chynnig cymorth (gan gynnwys cymorth iechyd meddwl amenedigol i drin pryder ynghylch rhoi genedigaeth), dylid cynnig Toriad Cesaraidd wedi'i drefnu iddi.

Cyflwyniad i'r Pecyn Cymorth Toriad Cesaraidd

19. Yn ystod 2009 -10, mewn ymateb i'r ffaith bod gan Gymru'r cyfraddau Toriadau Cesaraidd uchaf yn y DU, ariannodd Llywodraeth Cymru y gwaith o gyflwyno'r Pecyn Cymorth Toriad Cesaraidd ym mhob Bwrdd Iechyd yng Nghymru.

20. Mae'r pecyn cymorth yn ffordd ymarferol o leihau cyfraddau Toriadau Cesaraidd ond mae hefyd yn berthnasol i bob agwedd ar ofal.

21. Yn sgil y pecyn cymorth, anogwyd Byrddau Iechyd i wneud y canlynol:-

- Rhannu arfer da ledled Cymru
- Annog prosesau myfyrio ar ddiwylliant sefydliad neu dîm
- Hwyluso trafodaeth am gryfderau a gwendidau gwasanaethau
- Nodi unrhyw wahaniaethau mewn canfyddiad rhwng grwpiau staff, rheolwyr neu ddefnyddwyr

- Helpu i ddeall sut y gallai gwasanaeth â dull gweithredu mwy blaengar weithio
- Nodi arferion neu ymddygiadau y byddai tîm yn dymuno eu newid
- Darparu adnoddau ac astudiaethau achos i'r tîm er mwyn rhannu arfer da ac adnoddau
- Cwestiynu arferion presennol.

22. Gofynnwyd i bob Awdurdod Lleol Iunio cynllun i leihau cyfraddau Toriadau Cesaraid ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd flwyddyn yn ddiweddarach.

Cyfraddau dros y 5 mlynedd diwethaf

	2007	2008	2009	2010	2011
Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	Cyn ad-drefnu	23.06%	24.18%	23.74%	25.68%
Aneurin Bevan	25%	25%	24%	23%	23.73%
Betsi Cadwaladr	24.4%	26.7%	25.3%	24.9%	25.47%
Caerdydd a'r Fro	23.3%	23.67%	23.91%	21.25%	20.43%
Cwm Taf	28.8%	28.4%	30%	29.8%	29.2%
Hywel Dda	25.7%	23.7%	26.8%	27.1%	25.96%
Powys	18%	17%	19.9%	18.7%	22.4%

LEFELAU STAFFIO MEWN GWASANAETHAU MAMOLAETH

Cefndir

23. Er mwyn darparu gofal mamolaeth diogel, mae angen canolbwyntio ar ddatblygu a moderneiddio'r gweithlu cyfan gan gynnwys bydwagedd, meddygon, gweithwyr cymorth, swyddogion cynnal a chadw, staff gweinyddol a thimau o borthorion.

24. Fel rhan o'r Weledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru, sefydlwyd is-grŵp i ddatblygu canllawiau ar gyfer y gweithlu er mwyn darparu gwasanaethau diogel ac effeithiol yng Nghymru. Disgwylir i'r grŵp gwblhau ei waith erbyn mis Chwefror 2013 a bydd yn cynnig model gwasanaeth canolog a chysylltiedig - canolfan o arfer arbenigol (gwasanaethau obstetreg a newyddenedigol wedi'u darparu gan feddygon ymgynghorol ac wedi'u cefnogi gan wasanaethau anaestetig a diagnostig), gyda gwasanaethau cysylltiedig o ganolfannau geni a arweinir gan fydwagedd yn cefnogi'r gwasanaeth canolog.

25. Ni ellir dadansoddi na rhagweld y gofynion gweithlu o ran staffio'r model gwasanaeth canolog a chysylltiedig hwn hyd nes y cytunir ar union faint, manyleb a lleoliad yr unedau gan y Byrddau Iechyd. Fodd bynnag, mae'r is-grŵp wedi nodi'r egwyddorion a ddylai lywio'r gwaith o ddatblygu'r gweithlu.

Y Gweithlu Bydwreigiaeth

26. Mae nifer y bydwagedd (Cyfwerth ag amser Cyflawn) wedi amrywio yn ystod y pum mlynedd diwethaf, fel y gwelir yn y tabl isod. Mae'n ofynnol i Fyrddau lechyd gydymffurfio â Birthrate Plus (adnodd gweithle a dderbynnir yn genedlaethol) ac mae pob un ohonynt wedi cadarnhau ei fod yn gweithio tuag at sicrhau cydymffurfiaeth.

27. Mae nifer y gweithwyr sy'n cael hyfforddiant ac addysg yn flynyddol yn amrywio hefyd, yn sgil Proses Cynllunio'r Gweithlu Integredig sy'n gofyn i Fyrddau lechyd nodi eu gofynion ar gyfer y dyfodol. Mae'n rhaid i Fyrddau lechyd ystyried cyfraddau geni yn erbyn materion megis proffil oedran eu staff. Ar hyn o bryd, Cymru sydd â'r gweithlu bydwreigiaeth ieuengaf yn y DU. Yna defnyddir cynlluniau'r gweithlu i gyfrifo nifer y lleoedd hyfforddiant bydwreigiaeth a gaiff eu comisiynu ledled Cymru.

Nifer y Bydwagedd

Cyfwerth ag amser cyflawn	2007	2008	2009	2010	2011
Bydwagedd cofrestredig	1,247	1,323	1,227	1,196	1,165

Gweithwyr Cymorth Mamolaeth

28. Lanswyd rôl gweithiwr cymorth mamolaeth benodol gan y Gweinidog ym mis Chwefror 2009 ac ers hynny cyflwynwyd cwricwlwm Cymru gyfan i hyfforddi staff i bob Bwrdd lechyd. Mae'n cymryd hyd at 18 mis i gwblhau'r rhaglen hyfforddiant a chwblhaodd y garfan gyntaf o Fwrdd lechyd Aneurin Bevan eu hyfforddiant ym mis Gorffennaf 2011. Mae gweithwyr cymorth mamolaeth yn gweithio dan oruchwyliaeth bydwraig ac yn rhoi cyngor i ferched cyn ac ar ôl rhoi genedigaeth ar amrywiaeth o bynciau gan gynnwys bwydo ar y fron, maeth y baban a'r fam yn ogystal â chynnal profion rheolaidd fel pwysedd gwaed a phroffion gwaed;

29. Mae sefydliadau'n nodi nifer y bobl sy'n dechrau cael hyfforddiant yng nghynlluniau'r gweithlu. Yn 2012, dechreuodd 12 o Weithwyr Cymorth Mamolaeth pellach eu cwrs, ac mae 12 wedi'u nodi i ddechrau yn 2013 ar hyn o bryd. Caiff niferoedd y Gweithwyr Cymorth Mamolaeth sydd mewn hyfforddiant a'r dyddiadau y disgwylir iddynt gwblhau'r hyfforddiant eu hasesu ym mis Rhagfyr 2012. Awgryma amcangyfrif o niferoedd cyn casglu'r data hwn fod mwy na 50 o Weithwyr Cymorth Mamolaeth mewn hyfforddiant neu wedi cwblhau eu hyfforddiant yng Nghymru.

Y Gweithlu Meddygol

30. Mae nifer y staff meddygol ym maes obstetreg a gynaeoleg (Cyfwerth ag Amser Cyflawn) wedi cynyddu 15 ers 2007.

Cyfwerth ag amser cyflawn	2007	2008	2009	2010	2011
Pob gradd	315	313	324	329	336

31. Mae'r set gyflawn ddiweddaraf o ddata swyddi gwag ar draws holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru ar gyfer y grŵp staff meddygol ym mis Mehefin yn cofnodi mai'r unig swyddi gwag ym maes arbenigeddau obstetreg a gynaeoleg oedd dwy ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ac un ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd yr holl swyddi gwag mewn graddau Hyfforddi Arbenigol.

32. Tra bod nifer y swyddi gwag yn gymharol isel, mae'r rotâu meddygol ar gyfer Obstetreg a Gynaeoleg wedi'u lledaenu ar draws sawl safle. Maent felly'n agored iawn i risg o ran parhad gwasanaeth. Mae trafodaethau rhwng Deoniaeth Cymru a'r Byrddau Iechyd yn canolbwyntio ar y cyfleoedd y bydd ad-drefnu gwasanaethau yn eu cynnig i ddatblygu rotâu mwy cadarn a fydd yn sicrhau hyfforddiant priodol o ansawdd uchel.

EFFAITH GWASANAETHAU MAMOLAETH AR GYFRADDAU BWYDO AR Y FRON

33. Ceir tystiolaeth o ansawdd da sy'n meintioli'r risgiau byrdymor a hirdymor i iechyd mamau a babanod sy'n gysylltiedig â pheidio â bwydo ar y fron. Nododd adroddiad diweddar gost cyfraddau bwydo ar y fron isel i'r DU mewn perthynas â nifer yr achosion cynyddol o salwch a chostau trin y cleifion hynny i'r gwasanaeth iechyd. Felly, er mai dim ond ychydig yn is yw'r cyfraddau yng Nghymru na Lloegr, mae'r cyfraddau bwydo ar y fron isel yng Nghymru yn parhau i beri pryder ac yn fater pwysig ym maes iechyd y cyhoedd y mae angen mynd i'r afael ag ef.

Menter Cyfeillgar i Fabanod

34. Mae Menter Cyfeillgar i Fabanod UNICEF y DU yn achredu gwasanaethau mamolaeth ac iechyd cymunedol sydd wedi cwblhau asesiad allanol yn llwyddiannus.

35. Rhydd y fenter hyfforddiant i weithwyr iechyd proffesiynol i'w galluogi i roi'r help a'r cymorth sydd eu hangen ar famau sy'n bwydo ar y fron i wneud hynny'n llwyddiannus.

36. Mae Llywodraeth Cymru yn annog ysbytai'r GIG a gwasanaethau iechyd cymunedol yng Nghymru i gymryd rhan yn y fenter hon.

Cynnydd tuag at achrediad ar gyfer gwasanaethau mamolaeth

Bwrdd Iechyd	Statws
Cwm Taf	Achrediad llawn ar gyfer y ddwy uned mamolaeth
Addysgu Powys	Lluniwyd cynlluniau cychwynnol ond bu'r cynnydd yn araf
Hywel Dda	Lluniwyd cynlluniau cychwynnol ond bu'r cynnydd yn araf
Aneurin Bevan	Achrediad llawn ar gyfer yr unedau mamolaeth a'r canolfannau genedigaeth
Caerdydd a'r Fro	Achrediad llawn
Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	Achrediad llawn

Prifysgol Betsi Cadwaladr	Pasiwyd asesiad cyfnod 2 - pob aelod o staff wedi'i hyfforddi - yn gweithio tuag at achrediad llawn
Cymru Gyfan	69% o enedigaethau mewn gwasanaethau mamolaeth Cyfeillgar i Fabanod

Cynlluniau i ddatblygu'r rhaglen bwydo ar y fron

37 Bellach mae cydgysylltydd cenedlaethol newydd wedi ei benodi ar gyfer y rhaglen bwydo ar y fron, mae adolygiad o'r rhaglen yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac mae'r gwaith yn cynnwys:

- helpu i gwblhau'r data bwydo ar y fron ar gyfer Cymru gyfan a gyflwynwyd ym mis Medi 2012 yn gyflym fel rhan o'r Weledigaeth Strategol ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru;
- gweithio gyda'r unedau mamolaeth a gwasanaethau ymweliadau iechyd hynny sy'n gwneud cynnydd araf er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau i newid;
- datblygu'r rhaglen i gynnwys dulliau ychwanegol o gynyddu cyfraddau bwydo ar y fron sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Rhestr Termau / Gweithdrefnau

Birthrate Plus

Mae Birthrate Plus yn seiliedig ar safon y gofal un i un a roddir gan fydwraig i ferch yn ystod y cyfnod esgor ynghyd â'r gofal a roddir i'r baban(od) newydd-anedig.

Datblygwyd system sy'n defnyddio dangosyddion clinigol i ddsbarthu'r fam a'r baban i un o bum categori canlyniad.

Cardiotocograffeg (CTG)

Mae cardiotocograffeg yn ddull technegol o gofnodi curiad calon y ffetws a chyfngiadau'r groth yn ystod beichiogrwydd a'r cyfnod esgor.

Y gallu i gael gafael ar fydwraig yn uniongyrchol

Mae'r mwyafrif o bolisi mamolaeth y DU dros yr 20 mlynedd diwethaf wedi argymhell y dylai merched allu cael gafael ar fydwraig yn uniongyrchol heb orfod mynd drwy weithiwr iechyd proffesiynol arall. Y rhesymeg dros hyn yw bod merched yn gallu cael gafael ar ofal yn gynt ar adeg pan fo ymyrraeth gynnar, cyngor a gwybodaeth yn hanfodol i wella canlyniadau. Caiff nifer yr achosion o ddyblygu gofal hefyd ei lleihau.

Fersiwn geffalig allanol (ECV)

Proses yw fersiwn geffalig allanol lle y gellir troi baban sy'n wynebu o chwith fel bod ei ben yn dod yn gyntaf a chaiff ei chynnal fel arfer tua 36 wythnos. Ei diben yw osgoi'r angen am Doriad Cesaraid, a chynghorir merched bellach mai hon yw'r ffordd fwyaf diogel o roi genedigaeth os yw baban yn wynebu o chwith.

Yn ystod y driniaeth gosodir dwylo ar abdomen y fam o amgylch y baban. Caiff y baban ei symud i fyny ac i ffwrdd oddi wrth y pelfis a'i droi'n ofalus mewn sawl cam, o fod yn wynebu o chwith, i fod ar ei ochr, ac yn olaf i fod â'i ben yn gyntaf.

Mae iddi gyfradd llwyddiant o 40-60%.

Canllawiau NICE ar Doriad Cesaraidd 2011

Mae Canllawiau diweddar gan NICE (2011) yn argymhell pan fydd merch yn gofyn am Doriad Cesaraidd am ei bod yn pryderu ynglŷn â rhoi genedigaeth, y dylid cynnig ei hatgyfeirio at weithiwr gofal iechyd proffesiynol sydd â'r arbenigedd i roi cymorth iechyd meddwl amenedigol i'w helpu i fynd i'r afael â'r pryder mewn modd cefnogol.

I ferched sy'n gofyn am Doriad Cesaraidd, os nad yw geni drwy'r fagina yn opsiwn derbyniol o hyd, ar ôl trafod a chynnig cymorth (gan gynnwys cymorth iechyd meddwl amenedigol i drin pryder ynghylch rhoi genedigaeth), dylid cynnig Doriad Cesaraidd wedi'i drefnu iddi

Geni drwy'r Fagina ar ôl cael Doriad Cesaraidd

Mae canllawiau NICE (2011) yn argymhell y dylai merched beichiog sydd wedi cael Doriad Cesaraidd yn y gorffennol ac sy'n dymuno geni drwy'r fagina gael eu cefnogi i wneud hyn.

Cyfeiriadau

NICE 2011 Adran ar Doriad Cesaraidd yng nghanllaw clinigol 132 NICE